



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Y gweithiwr gofal preswyl plant

Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal
preswyl plant sydd wedi cofrestru gyda Gofal
Cymdeithasol Cymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 303 3444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

Gwefan: gofalcymdeithasol.cymru

   @GofCymdeithasol

ISBN: 978-1-911463-37-5

© 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn prout bras neu fformatau eraill os oes angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Y Côd

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn disgwyl i weithwyr gofal preswyl plant weithio'n unol â Chôd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a gallemgymryd camau os na fydd gweithwyr yn gweithredu'n briodol.

Disgwylir i gyflogwyr gweithwyr gofal preswyl plant ystyried y Côd wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag ymddygiad ac ymarfer eu staff.

Fel gweithiwr gofal cymdeithasol, mae rhaid:

- 1 Barchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a buddiannau, unigolion a gofalwyr.
- 2 Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.
- 3 Hyrwyddo llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr gan eu cefnogi i'w cadw eu hunain yn ddiogel.
- 4 Parchu hawliau unigolion gan geisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidio'u hunain na phobl eraill.
- 5 Gweithredu'n ddidwyll a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.
- 6 Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.
- 7 Yn ogystal ag adrannau 1-6, os ydych yn gyfrifol am reoli neu arwain staff, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y Côd yn rhan annatod o'u gwaith.

| | PARA | PAGE |
|--|------|------|
| Ynglŷn â'r canllawiau ymarfer hyn | | 6 |
| Sut mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i chi | 1 | 7 |
| Gweithwyr gofal preswyl plant | 2 | 8 |
| Gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn | 3 | 9 |
| Safonau ymddygiad | 4 | 9 |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | 5 | 10 |
| Cyfathrebu da | 6 | 11 |
| Ymateb i anghenion iaith Gymraeg | 7 | 12 |
| Cyfrinachedd | 8 | 12 |
| Aelodau'r teulu | 9 | 13 |
| Perthynas briodol a ffiniau personol | 10 | 13 |
| Deddfwriaeth a chanllawiau | 11 | 14 |
| Ymarfer gofal preswyl plant da | 12 | 15 |
| Cynllunio ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol | 13 | 15 |
| Ansawdd bywyd | 14 | 16 |
| Iechyd ac addysg | 15 | 17 |
| Cynllunio ar gyfer y dyfodol | 16 | 17 |
| Cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n gadael gofal | 17 | 18 |
| Gweithio mewn timau | 18 | 18 |
| Cofnodion ac adroddiadau | 19 | 19 |
| Sylwadau a chwynion am wasanaethau | 20 | 19 |
| Diogelu unigolion | 21 | 20 |
| Deall diogelu | 22 | 20 |
| Cynorthwyo plant a phobl ifanc i'w cadw eu hunain yn ddiogel | 23 | 21 |

| | PARA | PAGE |
|--|-------------|-------------|
| Anffurfio organau cenhedlu benywod | 24 | 21 |
| Atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. | 25 | 22 |
| Iechyd a diogelwch | 26 | 22 |
| Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a diogeliad | 27 | 22 |
| Diogelwch a llesiant a gwydnwch | 28 | 23 |
| Cefnogi ymddygiad cadarnhaol | 29 | 23 |
| Meddyginiaeth | 30 | 24 |
| Cefnogi ymarfer iechyd, diogelwch a diogeliad effeithiol | 31 | 24 |
| Datblygu'ch hun | 32 | 25 |
| Diweddarau'ch gwybodaeth | 33 | 25 |
| Goruchwyllo ac arfarnu | 34 | 26 |
| Helpu eraill i ddatblygu | 35 | 26 |
| Diwylliant o ddysgu | 36 | 26 |
| Cynorthwyo cydweithwyr i ddysgu | 37 | 27 |
| Dirprwyo tasgau i eraill | 38 | 27 |
| Cyfrannu at y gwasanaeth | 39 | 28 |
| Datblygu'r gwasanaeth | 40 | 28 |
| Adnoddau | 41 | 28 |
| Mynegi pryderon | 42 | 28 |
| Uniondeb | 43 | 29 |
| Cofrestru proffesiynol | 44 | 29 |
| Anrhegion a rhoddion | 45 | 30 |
| Ymddygiad a gwefannau cyfryngau cymdeithasol | 46 | 30 |
| Gwybodaeth ychwanegol | | 31 |

Ynglŷn â'r canllawiau ymarfer hyn

Mae'r canllawiau ymarfer hyn ar gyfer gweithwyr gofal preswyl plant (gweithwyr) sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Nod y canllawiau, sy'n adeiladu ar y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol, (y Côt) yw:

- Disgrifio'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan weithwyr
- Bod yn adnodd ymarferol, i helpu gweithwyr wrth iddynt ymarfer
- Rhoi arweiniad sy'n cynorthwyo gweithwyr i ddarparu gwasanaeth o safon uchel
- Bod yn sail i ganllawiau eglurhaol manylach ar rai pynciau.

Mae'r canllawiau hefyd yn cyfeirio at wybodaeth arall a allai gynorthwyo gweithwyr wrth ymarfer.

Datblygwyd y canllawiau yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae safbwyntiau a fynegwyd gan blant a phobl ifanc mewn amryw o weithgareddau ymgysylltu wedi'u cynnwys hefyd yn y canllawiau ymarfer hyn.

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu a'i diweddarau o dro i dro. Nid yw'n fwriad rhoi sylw i bob sefyllfa neu faes ymarfer. Disgwylir i weithwyr ddefnyddio'u barn broffesiynol, gan ddefnyddio egwyddorion cyffredinol y canllawiau a'r Côt a chymryd cyngor gan reolwyr lle bo angen. Rhaid i weithwyr lynu wrth y gofynion sydd arnynt yn Natganiad Diben a pholisïau eu sefydliad, a deddfwriaeth a rheoliadau statudol.

Gall Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ystyried y canllawiau hyn wrth gofrestru gwasanaethau ac yn ystod arolygiadau wrth asesu ansawdd y staff a'r gofal a ddarperir.

1

Sut mae'r canllawiau'n berthnasol i chi

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer gweithwyr gofal preswyl plant yng Nghymru. Maent hefyd yn berthnasol i gyflogwyr, a gellir eu defnyddio i asesu a oes trefniadau ar waith i sicrhau gwasanaeth proffesiynol a diogel. Gellir eu defnyddio i roi gwybod i blant a phobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan weithwyr. Cyfrifoldeb y gweithiwr yw bod yn gyfarwydd â'r canllawiau a'u dilyn. Mae'n rhaid i weithwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i gymhwyso'r canllawiau mewn sefyllfaoedd gwahanol neu ofyn am gyngor rheolwyr neu gydweithwyr os oes angen.

Os yw gweithwyr yn gyfrifol am arwain, goruchwyllo, mentora neu gefnogi gweithwyr gofal preswyl plant eraill, dylent hyrwyddo'r un disgwyliadau ymysg y staff hyn a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Mae'r egwyddorion o fewn y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yn gosod sylfaen i honiadau o gamymddwyn neu achos lle amharwyd ar addasrwydd i ymarfer. Gellir defnyddio'r canllawiau hyn i helpu i brofi a / neu ddangos bod y Côd wedi'i dorri. Gall eich cofrestrriad fod mewn perygl os ydych chi'n methu cydymffurfio â'r canllawiau hyn mewn ffordd ddifrifol neu'n gyson.

Mae'r canllawiau yn defnyddio'r termau '**mae'n rhaid i chi**' a '**dylech chi**' fel a ganlyn:

- Defnyddir '**mae'n rhaid i chi**' fel prif egwyddor.
- Defnyddir '**dylech chi**' wrth esbonio sut y byddwch yn cydymffurfio â phrif egwyddor.
- Defnyddir '**dylech chi**' hefyd pan na fydd yr egwyddor yn berthnasol i bob sefyllfa, neu pan fydd ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth yn effeithio ar sut y gallwch chi gydymffurfio â'r canllawiau.

2

Gweithwyr gofal preswyl plant

Mae gweithwyr gofal preswyl plant yn gwneud gwaith proffesiynol: diogelu a hyrwyddo hawliau a llesiant plant a phobl ifanc a darparu gofal a chymorth fel y gall plant a phobl ifanc ddatblygu i'w llawn botensial. Mae'r gweithiwr yn defnyddio theorïau ymddygiad dynol, datblygiad plant a systemau cymdeithasol er mwyn ymyrryd a gofalu am blant sydd angen gofal i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd am gyfnod byr neu gyfnod hirach yn eu bywydau.

Mae'n rhaid i chi gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn ymarfer mewn cartref preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru (cyflwynwyd cofrestru gorfodol ar 1 Mawrth 2008). Mae gweithwyr gofal preswyl plant nad oes ganddynt y cymhwyster gofynnol adeg cofrestru wedi'u cofrestru ar y sail eu bod wedi cwblhau'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol ac y byddant yn cwblhau'r cymhwyster gofynnol cyn adnewyddu eu cofrestriad. Mae cyfnod pob cofrestriad yn para tair blynedd. Dylid dechrau'r cymhwyster mor fuan â phosibl ar ôl cwblhau'r cyfnod Sefydlu, a rhaid cyflwyno tystiolaeth i Ofal Cymdeithasol Cymru bod y cymhwyster wedi'i gwblhau o fewn tair blynedd i gofrestru.

Bydd pawb sydd ar y Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol wedi dangos eu bod yn addas i weithio ym maes gofal cymdeithasol drwy sicrhau Gofal Cymdeithasol Cymru: bod ganddynt y cymwysterau gofynnol¹; eu bod yn iach yn gorfforol a meddyliol; eu bod o gymeriad da a'u bod yn cytuno i gydymffurfio â'r Côd.

¹gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu.

3

Gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn

Mae gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ymwneud â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gofal a'r cymorth sy'n addas i'w hanghenion unigol. Mae'n cynnwys ymrwymiad cryf i hawliau plant a phobl ifanc a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyfrannu at y materion a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'n cynnwys ymrwymiad i gynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn: rhoi'r plentyn / person ifanc wrth galon y broses gynllunio. Mae safonau ymddygiad ac ymarfer uchel a sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

4

Safonau ymddygiad

Mae'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yn disgrifio'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol gofynnol ar gyfer gweithwyr. Mae'r Côt yn sicrhau bod cyflogwyr, cydweithwyr, plant a phobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd yn gwybod beth y gallant ei ddisgwyl gan weithwyr. Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y Côt.

Dylech ddefnyddio'r Côt i:

- a. fyfyrion ar eich ymddygiad a'ch ymarfer eich hun, gan nodi meysydd posibl i'w gwella
- b. hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer gyda chydweithwyr
- c. herio ymddygiad ac ymarfer gwael
- ch. hysbysu plant a phobl ifanc am y safonau y gallant eu disgwyl.

5

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn berthnasol i blant a phobl ifanc ac oedolion. Mae gan y Cenhedloedd Unedig gonfensiynau cysylltiedig ar gyfer grwpiau penodol (gweler paragraff 11 isod). Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, mae'n hanfodol eich bod yn nodi eu hanghenion unigryw a'u hawliau penodol a all fod yn wahanol i'r rhai sy'n berthnasol i oedolion. Yn benodol, mae'n rhaid i chi ymgyswngu a defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn)² wrth weithio. Mae'n rhaid gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i brofi'r un lefelau o les â phlant eraill.

Mae'r saith amcan craidd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn crynhoi'r Confensiwn ac yn sylfaen ar gyfer penderfyniadau ar flaenoriaethau cenedlaethol. Dylent hefyd fod yn sylfaen ar gyfer penderfyniadau ar wasanaethau ac ymarfer lleol.

Y saith nod craidd yw bod plant a phobl ifanc:

1. yn cael dechrau teg mewn bywyd
2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio
4. yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
5. yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
6. yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol
7. yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

² www.complantcymru.org.uk/cy/ccuhp-hawliau-plant/

6

Cyfathrebu da

Mae cyfathrebu da â phlant a phobl ifanc yn rhan hanfodol o'ch ymarfer. Mae'n cynnwys sgiliau cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, y gallu i sefydlu ymddiriedaeth a chysylltiad ac addasu'r cyfathrebu yn ôl oed / gallu'r person a'r sefyllfa.

I gyfathrebu'n effeithiol mae'n rhaid i chi:

- a. ystyried dewis ac anghenion iaith
- b. ystyried hoff ddulliau cyfathrebu gan gynnwys defnyddio technoleg
- c. defnyddio dulliau cyfathrebu amgen penodol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau cyfathrebu
- ch. dod i adnabod plant a phobl ifanc, gwranddo arnynt, gofyn am eu safbwyntiau a'u parchu
- d. gwybod sut i ymateb yn briodol os yw plentyn / person ifanc yn flin, mewn trallod neu'n ofidus
- dd. rhannu ac egluro gwybodaeth i blant a phobl ifanc mewn ffordd ddealladwy a sensitif
- e. helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu hawliau a chynrychioli eu safbwyntiau a'u dymuniadau
- f. ymateb i gwestiynau a phryderon plant a phobl ifanc
- ff. sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hysbysu am sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.

Dylech wybod sut i ddod o hyd i eiriolwyr annibynnol, dehonglwyr neu gyfathrebwyr lle bo angen. Mae cyfathrebu da yn hanfodol hefyd ar gyfer gweithio gyda theuluoedd, cydweithwyr a rheolwyr.

7

Ymateb i anghenion iaith Gymraeg

Mae gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn canolbwyntio ar ofalu am blant a phobl ifanc fel unigolion, gan sicrhau eu bod yn ganolog i'w gofal. Dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o blant a phobl ifanc gyfleu eu hanghenion yn effeithiol. Mae'n gyfrifoldeb ar wasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Yn sgîl deddfwriaeth y Gymraeg³, mae'n ddyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan sicrhau dewis iaith i ddefnyddwyr. Ym maes gofal cymdeithasol, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r plentyn / person ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau mewn sefyllfa i fynegi dewis bob amser. Mae plant a phobl ifanc yn aml yn fregus, ac nid ydynt yn ddigon hyderus i ofyn am wasanaethau Cymraeg. Oherwydd hyn, yn hytrach na bod cyfrifoldeb ar yr unigolyn i ofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, dylai'r gwasanaeth wneud 'cynnig rhagweithiol'. Mae'r 'cynnig rhagweithiol' yn egwyddor allweddol yn Mwy na geiriau⁴, Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Dylech gefnogi eich cyflogwr i weithredu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg.

8

Cyfrinachedd

Mae'n rhaid i chi drin gwybodaeth bersonol unigolyn yn ofalus, gan gydnabod yr effaith negyddol ar blentyn neu berson ifanc pan rennir gwybodaeth yn ddianghenraid. Mae gwybodaeth bersonol yn cynnwys pob math o fformatau (llafar, ysgrifenedig, technolegol, ffotograffau, ac ati).

Mae'n rhaid i chi fod yn gyfarwydd â pholisïau'ch sefydliad ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth a chydymffurfio â nhw. Ni ddylech rannu gwybodaeth onid yw'r gyfraith yn caniatáu hynny.

Dylech fod yn sicr o'r adegau pan fydd hi'n ofynnol i chi rannu gwybodaeth ac â phwy, e.e. os oes pryderon diogelu, gan ofyn am gyngor rheolwyr a chydweithwyr os oes angen.

³ *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.*

⁴ *Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Llywodraeth Cymru, 2012. Dylech fod yn sicr o'r adegau pan fydd hi'n ofynnol i chi rannu gwybodaeth ac â phwy, e.e. os oes pryderon diogelu, gan ofyn am gyngor rheolwyr a chydweithwyr os oes angen.*

9

Aelodau'r teulu

Mae'n rhaid i chi ddangos parch at aelodau'r teulu ac eraill sy'n agos at y plentyn neu'r person ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dylech fod yn sensitif ac yn ymatebol wrth ddarparu gwybodaeth a chymorth.

Dylech wybod am hawliau plant, rhieni ac eraill i gadw mewn cysylltiad. Lle bo'n briodol, gan ystyried safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc, dylech gefnogi cyswllt adeiladol rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i deulu, gan gynnwys ymddwyn mewn ffordd galonogol a chroesawgar. Dylech wybod pryd a sut i annog aelodau'r teulu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau arbennig. Dylech weithio'n unol â'r cynllun gofal neu gynllun y lleoliad a gytunwyd.

Dylech sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau ar gyswllt, a'ch bod yn cadw atynt, ac yn gwybod am unrhyw ofynion ar gyfer monitro cyswllt a threfniadau i oruchwylio ymweliadau. Dylech ofyn am gyngor rheolwyr lle bo angen.

Dylech nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anawsterau yn ymwneud â gweithio gydag aelodau'r teulu, gan gynnwys gofyn am gyngor a chymorth priodol.

10

Perthnasau priodol a ffiniau personol

Mae ansawdd y berthynas rhwng y gweithiwr a'r plentyn neu'r person ifanc sy'n derbyn gofal yn hanfodol er mwyn sicrhau ymarfer gofal preswyl plant da (gweler Ymarfer gofal preswyl plant da, adran 12). Mae'n hanfodol creu amgylchedd cartrefol, cynnes, caredig, cyfeillgar ac anghlinigol. Weithiau, fodd bynnag, gall yr 'agosrwydd' rhwng y gweithiwr a'r plentyn neu berson ifanc arwain at gymylu'r ffiniau proffesiynol sy'n gallu creu anawsterau. Mae enghreifftiau o anawsterau'n cynnwys gweithwyr yn rhannu gwybodaeth bersonol amhriodol; cyflawni tasgau amhriodol; benthyca a rhoi benthyg amhriodol; defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol ac ati.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall eich rôl broffesiynol yn eu bywydau a'r cyfyngiadau sydd arnoch.

Er mwyn sicrhau eich ffiniau proffesiynol, rhaid i chi:

- a. ymarfer yn unol â'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- b. sicrhau eich bod yn deall eich rôl yn glir, eich cyfrifoldebau a'r hyn rydych yn atebol amdano a'r cyfyngiadau sydd arnoch yn hyn o beth
- c. cadw at bolisiau a gweithdrefnau'r sefydliad o ran ffiniau proffesiynol
- ch. defnyddio goruchwyliaeth broffesiynol i fyfrio ar ansawdd eich perthynas gyda phlant a phobl ifanc
- d. tynnu sylw eich rheolwr at unrhyw bosibiliadau o gymylu neu groesi ffiniau proffesiynol
- dd. sicrhau bod popeth a wnewch yn dryloyw ac yn agored i'w trafod dan oruchwyliaeth broffesiynol.

Mae rhai mathau o ymddygiad sy'n amlwg yn torri ffiniau proffesiynol derbyniol. Er nad yw'r canlynol yn rhestr gyflawn, mae ymddygiad annerbyniol yn cynnwys:

- a. cael perthynas rywiol neu amhriodol arall gyda pherson ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu rywun sy'n agos atynt
- b. cyfleu eich credoau personol i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn cynnwys credoau gwleidyddol, crefyddol neu foesol, mewn modd sy'n ecsbloetio'u sefyllfa fregus neu sy'n debygol o achosi trallod iddynt
- c. gweithredu mewn modd sy'n ecsbloetio neu sy'n niweidio plentyn neu berson ifanc.

Nid yw cydsyniad y plentyn neu'r person ifanc byth yn amddiffyniad i unrhyw un o'r gweithredoedd hyn.



Deddfwriaeth a chanllawiau

Rhaid i chi ymgylfarwyddo â pholisiau a gweithdrefnau sefydliadol, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol a chydymffurfio â nhw, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Cydraddoldeb 2010; Deddf Hawliau Dynol 1998 a chonfensiynau cysylltiedig fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unigolyn ar sail ei nodweddion gwarchoddedig. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys y nodweddion gwarchoddedig canlynol – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, a beichiogrwydd a mamolaeth.

12

Ymarfer gofal preswyl plant da

Mae ymarfer gofal preswyl plant da yn seiliedig ar ddull gweithio sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Yn ogystal â chyflawni tasgau gofal, mae ansawdd eich perthynas â phlant a phobl ifanc yn hollbwysig, gan gyfrannu at ansawdd bywyd a theimlad o ddiogelwch a pherthyn. Mae plant a phobl ifanc angen eu meithrin yn ofalus, ac mae'n hanfodol creu amgylchedd cartrefol, cynnes, cadarnhaol, cyfeillgar, 'anghlinigol'.

Gall eich perthynas â phlentyn neu berson ifanc barhau am gyfnodau hir. Efallai y byddwch yn eu cynorthwyo trwy sefyllfaoedd heriol ac anodd a newidiadau yn eu bywyd. Byddwch yn ymwybodol o wybodaeth bersonol iawn am eu cryfderau, eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Mae plant a phobl ifanc yn disgwyl i chi fod yn gefnogol, yn garedig, yn ddibynadwy, yn deg, yn amyneddgar, yn wrthrychol, yn hyblyg, yn onest, yn esiampl gadarnhaol ac i beidio â barnu eraill.

Wrth ddarparu gofal preswyl plant, mae'n rhaid i chi fod yn barod i gydnabod terfynau'ch cymhwysedd, a gweithio yn unol â hynny, gan dderbyn cyngor gan reolwyr a chydweithwyr fel sy'n briodol. Mae'n rhaid i chi ofyn am gymorth os na allwch chi gyflawni unrhyw agwedd ar eich gwaith, neu os ydych chi'n ansicr ynglŷnâ beth i'w wneud. Dylech fod yn barod i ddysgu ac ymgymryd â'r ystod lawn o dasgau ar gyfer eich swydd (gweler yr adran ar Ddatblygu eich hun hefyd).

Os ydych chi'n gwneud camgymeriad, rhaid i chi ymddwyn yn agored ac yn onest, gan roi eglurhad llawn i'ch rheolwr yn syth. Dylech fod yn barod i fyfrio ar eich camgymeriadau a dysgu gwersi. Mae canllawiau ar gonestrwydd a dyletswydd broffesiynol o ar gael o gofalcymdeithasol.cymru.

13

Cynllunio ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol

Fel y bo'n briodol, dylech gyfrannu at ddatblygu cynllun lleoliad unigol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n eu cynnwys yn llawn yn y broses ac yn adlewyrchu eu cryfderau, eu hanghenion a'r canlyniadau dymunol. Dylech ddeall y cynllun a'ch rôl chi. Dylech wneud pob

ymdrech i weithio'n adeiladol gydag eraill sy'n rhan o'r cynllun megis gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill.

Dylech helpu i roi'r cynllun ar waith fel rhan o'r gofal bob dydd.

Dylech gyfrannu at adolygu'r cynllun lleoliad yn effeithiol, gan gynnwys nodi cynnydd, llwyddiannau ac unrhyw anawsterau.



Ansawdd bywyd

Mae darparu ar gyfer ansawdd bywyd yn ganolog i ymarfer gofal preswyl plant da ac er mwyn sicrhau saith nod craidd Llywodraeth Cymru (gweler adran 5). Mae'n rhaid i chi hyrwyddo ansawdd bywyd mewn ffordd weithredol, gan wneud popeth posibl yn eich swydd i sicrhau'r canlynol ar gyfer plant a phobl ifanc:

- eu bod yn byw mewn amgylchedd cartrefol;
- eu bod yn derbyn gwybodaeth briodol am eu gofal a'u cymorth
- eu bod yn derbyn gofal a chymorth unigol
- bod eu hanghenion a nodwyd yn cael eu diwallu, e.e. oherwydd namau neu gyflyrau iechyd;
- parch at eu hunaniaeth, diwylliant, eu credoau a'u rhywedd
- eu bod yn cael eu hamddiffyn yn erbyn bwlio
- parch at eu preifatrwydd a'u gofod personol
- bod eu harian a'u heiddo yn ddiogel
- eu bod yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â rhedeg y cartref preswyl, fel sy'n briodol
- eu bod yn cael cymorth i ddatblygu a chynnal cyfeillgarwch ag eraill, eu talentau, eu diddordebau a'u hobiau
- eu bod yn derbyn cymorth ar gyfer eu haddysg a dysgu sgiliau bywyd bob dydd, cymryd risgiau priodol, sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd a dinasyddiaeth
- bod cyfle iddynt fwynhau gweithgareddau pwrpasol ac ystyrlon iddynt hwy yn y cartref a'r gymuned
- eu bod yn derbyn gofal a chymorth ychwanegol lle bo angen, e.e. wrth gael eu derbyn i'r gwasanaeth, yn y cyfnod pontio ac yn ystod digwyddiadau arwyddocaol bywyd
- eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio gwasanaeth eiriolaeth annibynnol e.e. er mwyn eu galluogi i fynegi safbwynt annibynnol, dymuniad neu deimlad yn briodol
- eu bod yn gwybod sut i godi pryderon neu gwyno am eu gofal a'u cymorth.

Noder: nid yw'r rhestr uchod yn gyflawn ond mae'n rhoi enghreifftiau o hyrwyddo ansawdd bywyd.

15

Iechyd ac addysg

Mae'n hanfodol bod anghenion iechyd ac addysg plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl yn cael eu diwallu, a bydd eich cyfraniad at sicrhau bod hyn yn digwydd yn allweddol. Mae'n rhaid i chi weithredu polisiau'ch sefydliad ar anghenion iechyd ac addysg.

Dylech sicrhau bod eich ymarfer yn hyrwyddo ac yn cefnogi iechyd da ac yn ymateb i bryderon: mae hyn yn cynnwys iechyd corfforol, iechyd emosiynol ac iechyd rhywiol. Dylech fod yn gyfarwydd ag anghenion iechyd penodol plentyn neu berson ifanc o dan eich gofal, a gallu ymateb yn briodol iddynt.

O safbwynt addysg, mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith drwy gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Fel sy'n briodol, gall hyn gynnwys cydweithio ag ysgolion; cefnogi presenoldeb; darparu cymorth ar gyfer astudio a gwaith cartref a darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol.

Os ydych chi'n weithiwr cyswllt dynodedig, dylech gyflawni'ch swydd yn unol â'r rheoliadau ac yn unol â Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell⁵.

16

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae pobl ifanc yn ystyried paratoi ar gyfer y dyfodol yn rhan hanfodol o fod mewn gofal: paratoi at fywyd, byw'n annibynnol a chyrraedd eu llawn botensial. Mae angen gwybodaeth ar bobl ifanc a chefnogaeth mewn meysydd megis dewis cartref, gwaith a hyfforddiant, byw yn y gymuned, ymdopi ag unigrwydd, budd-daliadau a sgiliau byw'n annibyn'cyflawni ar eu rhan'.

Fel sy'n briodol, dylech gyfrannu at ddatblygu cynllun pontio unigol ar gyfer person ifanc sy'n paratoi at fyw'n annibynnol. Dylech ddeall y cynllun a chyflawni'ch rôl yn y cynllun.

⁵ Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell: Canllawiau a Rheoliadau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer: I. lleoli, plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a sicrhau eu hiechyd, eu haddysg a'u llesiant; a ll. y Comisiynydd Cyfrifol ar gyfer gofal iechyd eilaidd plant agored i niwed sy'n cael eu lleoli mewn ardal arall oddi cartref. Llywodraeth Cymru, 2007

17

Cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n gadael gofal

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â pholisi'ch sefydliad yn ymwneud â chadw mewn cysylltiad â phobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal. Dylech gadw at y dulliau y cytunwyd arnynt o gadw mewn cysylltiad ac ymddwyn mewn ffordd agored a thryloyw bob amser. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â pherson ifanc sy'n parhau i dderbyn gwasanaethau a phan fo'r unigolyn yn oedolyn ac nad yw mwyach yn derbyn gwasanaethau.

Dylech barhau i barchu pobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal, a'u teuluoedd, os ydych yn parhau i gysylltu â nhw fel rhan o gynllun neu os bydd cyswllt heb ei gynllunio.

18

Gweithio mewn timau

Mae gwaith tîm effeithiol yn gyfrifoldeb i bob aelod o'r tîm-nid y rheolwr neu uwch staff yn unig.

Wrth weithio mewn tîm, gan gynnwys tîm amlddisgyblaethol, mae'n rhaid i chi:

- a. wneud pob ymdrech i ddeall rolau a chyfrifoldebau cydweithwyr
- b. cyfathrebu'n effeithiol
- c. hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc
- ch. ystyried dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc
- d. parchu sgiliau a chyfraniadau'ch cydweithwyr
- dd. bod yn barod i godi pryderon yn ymwneud ag ymarfer
- e. ceisio rheoli anghytundeb mewn ffordd adeiladol
- f. paratoi ar gyfer cyfarfodydd a chyfrannu atynt yn gadarnhaol.

Dylech ddefnyddio dulliau cyfathrebu y cytunwyd arnynt fel cyfarfodydd staff, hysbysfyrddau a systemau cofnodi er mwyn cefnogi gwasanaeth diogel sydd wedi'i gydgyssylltu'n dda ar gyfer plant a phobl ifanc.

Dylech gydymffurfio â'r gweithdrefnau trosglwyddo i'ch cydweithwyr, gan ddarparu gwasanaeth di-dor da ar gyfer plant a phobl ifanc.

19

Cofnodion ac adroddiadau

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i ddisgwyl bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei chofnodi a'i hadrodd yn gywir a'i defnyddio'n briodol. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw at bolisiâu a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer cwblhau cofnodion ac adroddiadau.

Dylech sicrhau bod y cofnodion a'r adroddiadau a baratowch:

- a. yn gywir, yn glir, yn gyflawn ac yn gyfredol
- b. yn cynnwys lefel briodol o fanylion i ategu'r penderfyniadau a wnaed
- c. yn adlewyrchu barn a safbwyntiau'r plentyn / person ifanc
- ch. yn gallu cael eu deall gan y rhai sydd â hawl i'w gweld
- d. yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol
- dd. yn cael eu cyflwyno i eraill sydd angen gwneud penderfyniadau neu weithredu
- e. yn cael eu storio, eu rhannu a'u cadw yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys gofynion diogelu data.

Rhaid i chi beidio ffugio, newid neu ôl-ddyddio cofnodion neu adroddiadau.

20

Sylwadau a chwynion am wasanaethau

Dylech sicrhau bod gan blant a phobl ifanc wybodaeth am sut i wneud sylwadau a chwyno am wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys proses y cartref gofal preswyl a phroses gwyno'r awdurdod sy'n trefnu'r lleoliad.

Os bydd cwyn am eich ymarfer, dylech gydweithredu â'r ymchwiliad. Dylech fod yn barod i fyfrio ar sylwadau a chwynion am eich ymarfer a dysgu ganddynt.

Os ydych chi'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion, rhaid i chi drin cwynion / y bobl sy'n gwneud cwynion yn deg a dilyn gweithdrefnau ymchwilio priodol.

Dylech sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall rôl eiriolwr annibynnol i'w helpu gyda'r gwyn, a gwybod sut i gael gafaél ar y gwasanaeth hwnnw.

Dylech fod yn gyfarwydd â rôl Comisiynydd Plant Cymru. Mae gan y Comisiynydd bwerau deddfwriaethol i roi cymorth i blant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Dylech annog a chefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn mentrau i roi safbwyntiau a sylwadau am eu gwasanaethau, fel sy'n briodol.



Diogelu unigolion

Diogelu yw amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r rhai sy'n agos atynt i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae gweithwyr gofal preswyl plant yn gwneud cyfraniad allweddol at hyrwyddo a diogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, e.e. oedolion ifanc sy'n gadael gofal. Mae ymarfer da yn cynnwys gwybod pa gamau i'w cymryd mewn achosion o niwed neu gam-drin gwirioneddol neu bosibl. Mae'n cynnwys cefnogi plant ac oedolion i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Mae angen i weithwyr fod yn ymwybodol o beryglon posibl a gwybod sut i ymateb iddynt: esgeulustod, camdriniaeth, camfanteisio rhywiol, bwlio a seiberfwlio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar ddiogelu plant ac oedolion (gweler yr adran Gwybodaeth ychwanegol). Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno dull o ddiogelu trwy weithio mewn partneriaeth sy'n fwy grymus, cadarn ac effeithiol.

Un o'r egwyddorion pwysicaf yw fod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n agored i risg yn cael eu hamddiffyn rhag eu cam-drin.

Disgwylir i weithwyr weithio'n unol â pholisïau a gweithdrefnau Cymru gyfan a ddatblygwyd mewn ymateb i ganllawiau statudol a pholisïau a gweithdrefnau lleol.

22

Deall diogelu

Mae'n rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- a. y ffactorau a all arwain at niwed, camdriniaeth neu ecsbloetio
- b. arwyddion niwed neu gamdriniaeth bosibl
- c. gweithdrefnau lleol
- ch. eich cyfrifoldeb lle mae plentyn / person ifanc wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu mewn perygl o hynny.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod am unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.

23

Cynorthwyo plant a phobl ifanc i'w cadw eu hunain yn ddiogel

Mae'n rhaid i chi ddarparu gofal preswyl plant sy'n cynorthwyo pobl i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Bydd hyn yn cynnwys:

- a. hybu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- b. cyfrannu at asesu gallu'r plentyn neu'r person ifanc i wneud penderfyniadau ynglŷnâ risg
- c. gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli risg
- ch. cynorthwyo plant a phobl ifanc i allu gweld pan fydd ymddygiad tuag atynt yn amhriodol neu'n annerbyniol, lle bo'n bosibl
- d. cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddatblygu eu gallu i'w cadw eu hunain yn ddiogel
- dd. cynorthwyo ac arwain plant a phobl ifanc i ddatblygu perthynas ddiogel a chefnogol ag eraill
- e. cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio gwasanaethau eiriolaeth annibynnol
- f. cynorthwyo plant a phobl ifanc i fynegi pryderon neu gwyno
- ff. ymateb i bryderon neu gwynion mewn ffordd brydlon, agored, gonest a theg.

24

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae'n fath o gam-drin plant a thrais yn erbyn menywod. Mae Adran 5B o'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd orfodol i hysbysu sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ac athrawon hysbysu'r heddlu ynghylch achosion hysbys o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ymhlith merched dan 18 oed y maent yn eu canfod wrth wneud eu gwaith. Mae canllawiau pellach ynghylch y ddyletswydd hon ar gael gan Lywodraeth y DU⁶.

25

Atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrrff penodol (gan gynnwys awdurdodau lleol) i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch ar y pwnc yma. Mae'r canllawiau'n cynnwys gofynion i hyfforddi staff. Dylech gynorthwyo eich cyflogwr i roi'r canllawiau ar waith.

26

Iechyd a diogelwch

Mae gan eich cyflogwr ystod o gyfrifoldebau i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant a lleihau risg annerbyniol i chi ac i eraill. Mae gennych chi gyfrifoldeb i gydweithredu â'ch cyflogwr ar faterion iechyd a diogelwch.

27

Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a diogeliad

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â gofynion iechyd, diogelwch a diogeliad statudol a sefydliadol gan gynnwys, ymhlith eraill, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, a chydymffurfio â nhw.

⁶ Multi-agency statutory guidance on Female Genital Mutilation www.gov.uk/government/publications/multiagency-statutory-guidance-on-female-genital-mutilation

28

Diogelwch a llesiant a gwydnwch

YRhaid i chi gymryd camau i sicrhau eich bod yn cadw'n ddiogel mewn sefyllfaoedd lle mae perygl i chi neu i eraill gael niwed. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â'ch cyflogwr wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd gofal tuag atoch. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eich bod yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau sefydliadol perthnasol fel rhoi gwybod am ddigwyddiadau, cymorth cyntaf, gweithio ar eich pen eich hun, rheoli ymddygiad a thrais yn erbyn staff, ac yn rhoi'r polisiau a'r gweithdrefnau hynny ar waith.

Dylech ddeall yr effaith y gall sefyllfaoedd gwaith anodd ei chael ar eich llesiant a'ch ymarfer cyffredinol. Dylech nodi a gweithredu dulliau o gefnogi'ch llesiant a datblygu'ch gwydnwch: mae hyn yn cynnwys manteisio ar gymorth perthnasol sy'n cael ei gynnig gan eich rheolwr a'ch cyflogwr.

29

Cefnogi ymddygiad cadarnhaol

Dylech ymarfer mewn ffordd sy'n helpu i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â pholisiau, gweithdrefnau ac ymarfer sy'n cefnogi dulliau o ddatblygu ymddygiad cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'n cynnwys cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli ymddygiad a strategaethau ataliol, fel y bo'n briodol.

Er gwaethaf dulliau ataliol, gall plant a phobl ifanc ar brydiau ymddwyn yn heriol gan beri eu bod hwy neu eraill mewn perygl o niwed difrifol. Mae ymateb i'r ymddygiad hwn yn gofyn am amrywiaeth o strategaethau a gall gynnwys yr angen i ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol.

Os yw'n ofynnol i chi ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol rhaid i chi:

- gydymffurfio â pholisiau a chanllawiau eich sefydliadar gyfer ymyriad corfforol cyfyngol⁷
- dilyn hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant diweddar, ar ymyriad corfforol cyfyngol a drefnir gan eich cyflogwr
- defnyddio dulliau a thechnegau a gydnabyddir yn broffesiynol yn unig sy'n briodol i'r plentyn neu'r person ifanc perthnasol

⁷ Diffinnir ymyriad corfforol cyfyngol fel 'cysylltiad corfforol uniongyrchol rhwng personau lle defnyddir grym rhesymol yn gadarnhaol yn erbyn gwrthwynebiad, naill i gyfyngu ar symudiad neu allu unigolyn i symud neu i ddod yn rhydd oddi wrth ymddygiad niweidiol a ddangosir gan unigolyn', Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol, Llywodraeth Cymru, 2005

- ch. defnyddio'r ymyriad lleiaf (o ran nerth ac amser) sy'n angenrheidiol i atal niwed a chyfyngu ar ddifrod
- d. rhoi gwybod i weithiwr allweddol y plentyn a'ch rheolwr ar ôl unrhyw achos o ymyriad cyfyngol corfforol
- dd. cofnodi'r digwyddiad yn unol â gweithdrefnau cofnodi eich sefydliad
- e. cyfrannu'n adeiladol at gyfarfodydd dad-frifio ar ôl digwyddiad
- f. defnyddio goruchwyliaeth broffesiynol i fyfrio ar ddigwyddiadau a dysgu unrhyw wersi.

Ni ddylech chi:

- a. ddefnyddio dulliau ymyriad corfforol cyfyngol sy'n seiliedig ar boen i sicrhau ufudd-dod neu gydymffurfiaeth
- b. gyfyngu plentyn neu berson ifanc gyda'i wyneb tuag at y llawr
- c. bygwth ymyriad corfforol cyfyngol er mwyn cosbi, cywilyddio, diraddio neu wahaniaethu.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau sefydliadol ynglŷn â chydweithio â'r heddlu, gan gymryd cyngor gan reolwyr a chydweithwyr yn ôl yr angen.

30

Meddyginiaeth

Rhaid i chi ymgyswrttu a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer gweinyddu, cofnodi, trin, a gwaredu meddyginiaeth a'i chadw'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaeth bresgripsiwn a meddyginiaeth heb fod ar bresgripsiwn a ddefnyddir ar yr aelwyd.

31

Cefnogi ymarfer iechyd, diogelwch a diogeliad effeithiol

Dylech weithio mewn partneriaeth â'ch cyflogwr i fonitro, adolygu a gwella polisïau a gweithdrefnau iechyd, diogelwch a diogeliad.

32

Datblygu'ch hun

Mae dysgu a datblygu gwybodaeth a sgiliau yn barhaus yn hanfodol i wella ymarfer a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydych yn gyfrifol am eich ymdrechion i ennill y cymhwyster gofynnol ar gyfer eich rôl, i gymryd rhan mewn hyfforddiant gorfodol ac i ymgymryd â dysgu a datblygu perthnasol parhaus

33

Diweddarau'ch gwybodaeth

Mae'n rhaid i chi ddiweddarau'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch cymwyseddau, gan gydweithio â'ch cyflogwr i chwilio am gyfleoedd datblygu a fydd yn diwallu eich anghenion dysgu a datblygu.

Dylech:

- a. adolygu a diweddarau eich gwybodaeth am ymarfer, deddfwriaeth, polisi ac ymchwil yn rheolaidd
- b. gwrandao ar eraill a dysgu ganddynt, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill, plant a phobl ifanc a theuluoedd
- c. gofyn am gymorth i fynd i'r afael â bylchau yn eich gwybodaeth a'ch sgiliau
- ch. myfyrio ar eich dysgu a'i ddefnyddio i helpu i wella ymarfer a gwasanaethau
- d. cadw cofnod o'ch dysgu yn unol â gofynion dysgu a hyfforddiant ôl-gofrestru.

Dylech ddiweddarau eich gwybodaeth mewn sawl ffordd wahanol, fel darllen, mynychu hyfforddiant, cyfrannu at gyfarfodydd tîm, grwpiau proffesiynol a seminarau.

Dylech gael y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau ac adnoddau lleol a allai fod yn berthnasol i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw.

34

Goruchwylio ac arfarnu

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r cyfleoedd goruchwylio ac arfarnu sydd ar gael i chi er mwyn:

- a. nodi amcanion eich gwaith a'ch datblygiad personol
- b. gofyn am gyngor a chymorth ar gyfer eich gwaith
- c. cytuno ar gamau i'w gweithredu;
- ch. gofyn am adborth adeiladol;
- d. myfyrio ar eich ymarfer a'i wella.

Dylech baratoi ar gyfer mynychu a chyfrannu at brosesau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd gan ddangos agwedd gadarnhaol.

Dylech gyflawni'ch cyfrifoldebau yn unol â pholisi goruchwylio ac arfarnu'ch cyflogwr.

Dylech godi unrhyw bryderon neu broblemau brys gyda'ch rheolwr, yn hytrach nag aros am gyfarfod goruchwylio.

35

Helpu pobl eraill i ddatblygu

Yn ogystal â mynd i'r afael â'i anghenion dysgu ei hun, mae gan bob gweithiwr gofal preswyl plant gyfrifoldeb i helpu pobl eraill i ddysgu a datblygu. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys rhannu gwybodaeth, mentora gweithwyr newydd, cyfrannu at gyfarfodydd tîm a thrafodaethau, ynghyd â gweithgareddau mwy ffurfiol fel darparu hyfforddiant neu gyflawni rôl asesydd.

36

Diwylliant o ddysgu

Dylech wneud popeth o fewn eich gallu i hyrwyddo diwylliant o ddysgu yn y gweithle. Dylech gyfrannu at amgylchedd lle mae pawb yn cael cyfle i rannu ymarfer da, dysgu a syniadau; dod o hyd i ymchwil; dysgu o gamgymeriadau; myfyrio ar ymarfer a bod yn greadigol.

37

Cynorthwyo cydweithwyr i ddysgu

Mae cynorthwyo dysgu, hyfforddiant ac asesu cydweithwyr yn hanfodol ar gyfer gwasanaethau heddiw ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n dilyn hyfforddiant sefydlu ac yn astudio am gymwysterau. Dylech fod yn barod i gyfrannu at y gweithgareddau hyn, os ydych yn rhan o'r gwaith, er mwyn datblygu'r cymhwysedd gofynnol.

38

Dirprwyo tasgau i eraill

Mae dirprwyo yn golygu gofyn i gydweithiwr gwblhau tasg ar eich rhan. Dan yr amgylchiadau cywir, gall dirprwyo helpu i gyflawni gwasanaethau a chyfrannu at ddatblygiad staff. Er na fyddwch yn atebol am benderfyniadau a gweithredoedd y rhai rydych yn dirprwyo iddynt, chi fydd yn gyfrifol am reoli'r dasg yn gyffredinol, ac yn atebol am eich penderfyniad i ddirprwyo. Wrth ddirprwyo tasg, rhaid i chi fod yn fodlon bod dirprwyo'r dasg yn cyd-fynd â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a sefydliadol.

Dylech:

- a. fod yn fodlon bod gennych chi'r awdurdod i ddirprwyo'r dasg
- b. bod yn fodlon bod manteision dirprwyo'r dasg yn fwy na'r risgiau
- c. bod yn fodlon bod gan y sawl rydych yn dirprwyo iddo'r cymwysterau, y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol
- ch. rhoi digon o wybodaeth am y dasg i'r sawl rydych yn ei dirprwyo iddo
- d. sicrhau bod y sawl rydych yn dirprwyo iddo yn gallu cael goruchwyliaeth briodol
- dd. sicrhau eich bod yn cael caniatâd yr unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, lle bo angen
- e. monitro ymarfer ac ymyrryd os nad yw'r sawl rydych wedi dirprwyo'r dasg iddo yn gallu ei chyflawni'n ddiogel.

39

Cyfrannu at y gwasanaeth

Gall gweithwyr gofal preswyl plant gyfrannu at amrywiaeth o dasgau er mwyn darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, datblygu polisiau; cyfrannu at gynllunio; rheoli adnoddau a chyfrannu at adolygu a gwerthuso. Wrth gyflawni tasgau o'r fath, rydych yn gyfrifol am gynnal safonau uchel ac am ansawdd y gwaith yn y meysydd hyn. Mae'n rhaid i chi hysbysu'ch cyflogwr os nad ydych yn teimlo'n gymwys i gyflawni tasg.

40

Datblygu'r gwasanaeth

Dylech gyfrannu at ddatblygu gwasanaeth gofal preswyl plant effeithiol. Wrth gyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth, dylech:

- arddel gwerthoedd gofal cymdeithasol, gan hyrwyddo Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- sicrhau bod eich cyfraniad yn canolbwyntio ar ansawdd a gwelliant, yn arbennig hawliau, diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- defnyddio adborth y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth i lywio'r dasg.

41

Adnoddau

Dylech gyfrannu at nodi'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd. Dylech leihau gwastraff. Dylech gofio'ch cyfrifoldeb i ddefnyddio adnoddau cyfyngedig yn effeithiol.

42

Mynegi pryderon

Rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr neu'ch cyflogwr os oes gennych bryderon am bolisiau, gweithdrefnau neu ymarfer aneffeithiol, neu unrhyw fylchau ynddynt. Yn yr un modd, rhaid i chi fynd i'r afael ag unrhyw bryderon, er enghraifft, am systemau gwael, yr adnoddau sydd ar gael, llwyth gwaith rhy drwm, bwlio neu aflonyddu, cyfleusterau ac offer, sgiliau tîm, torri codau neu safonau rheoleiddio, ymddygiad neu ymarfer gwael neu anghyfreithlon. Dylech fod yn gyfarwydd â'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol ar gyfer adrodd am bryderon, e.e. Polisi Aflonyddu a Bwlio yn y Gwaith, Polisi

Diogelu, Polisi Chwythu'r Chwiban.

Os nad yw'ch rheolwr neu'ch cyflogwr yn cymryd camau digonol, dylech gael cyngor annibynnol gan gorff rheoleiddio neu gynghori priodol fel Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Gofal Cymdeithasol Cymru Cymru neu Public Concern at Work⁸. Dylech gofnodi'ch pryderon a'r camau rydych wedi'u cymryd i geisio eu datrys.



Uniondeb

Ystyr uniondeb yw bod yn rhywun gonest y gellir ymddiried ynddo, sy'n gweithredu'n ddidwyll. Rhaid i chi ymddwyn bob amser mewn ffordd sy'n cyfiawnhau'r ymddiriedaeth y mae plant a phobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd yn ei rhoi ynddoch.



Cofrestru proffesiynol

Rhaid i chi gynnal eich cofrestriad proffesiynol a chydymffurfio â gofynion hyfforddi, dysgu ac addasrwydd i ymarfer ar ôl cofrestru.

Dylech roi gwybod l Ofal Cymdeithasol Cymru yn ddi-oed am unrhyw faterion a allai godi amheon ynghylch eich addasrwydd i weithio ym maes gofal preswyl plant, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

- a. achosion troseddol sydd ar y gweill
- b. rhybuddion, cosbau penodedig neu gollfarnau
- c. achosion disgyblu sydd ar y gweill neu wedi'u cynnal
- ch. unrhyw newid yng nghyflwr eich iechyd corfforol neu feddyliol a allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'ch gwaith ym maes gofal cymdeithasol.

Noder: Ni fydd dweud wrth Ofal Cymdeithasol Cymru am y materion hyn, o reidrwydd, yn eich atal rhag cofrestru nac yn effeithio ar eich cofrestriad cyfredol. Mae'r ddeddfwriaeth⁹ yn nodi nad yw'n ofynnol bellach datgelu rhai hen gollfarnau neu fân gollfarnau. Mae gwybodaeth lawn am y rhybuddion a'r collfarnau gwarchoddedig ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

www.gov.uk/government/publications/filtering-rules-for-criminal-record-check-certificates

Er mwyn parhau wedi'ch cofrestru, mae'n rhaid i ni allu cysylltu â chi. Dylech hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw newidiadau i'ch manylion cyswllt gan gynnwys enw, teitl, cyfeiriad cartref, cyfeiriad gwaith, e-bost a'ch manylion cyflogaeth.

⁸ Elusen sy'n darparu cyngor cyfrinachol am ddim i bobl nad ydynt yn sicr a ddylent fynegi pryderon yngl^ ynag arferion yn y gwaith, neu sy'n ansicr sut i wneud hynny – www.pcaw.org.uk

⁹ Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2013.

45

Anrhegion a rhoddion

Rhaid i chi beidio ag annog plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu eu teuluoedd, i roi benthyg neu roi eiddo, arian neu anrhegion y byddwch chi'n bersonol yn elwa arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Rhaid i chi beidio â rhoi pwysau ar blant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu eu teuluoedd i roi rhoddion ariannol i bobl neu sefydliadau eraill. Rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau sefydliadol a rheoliadau statudol perthnasol yn ymwneud ag anrhegion, rhoddion ariannol a chymynroddion.

46

Ymddygiad a gwefannau cyfryngau cymdeithasol

Cydnabyddir y gall gweithwyr gyfathrebu â chydweithwyr drwy wefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, LinkedIn neu Twitter. Gall y gwefannau hyn fod yn ffynhonnell ddefnyddiol i ddarparu cymorth a rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, ni ddylech drafod na rhoi sylwadau ar-lein am unigolion sy'n gysylltiedig â'ch gwaith. Mae hyn yn bwysig er mwyn diogelu cyfrinachedd a didwylledd personol a phroffesiynol pawb dan sylw.

Ni ddylech gyfathrebu â'r plant a'r bobl ifanc yn eich gofal trwy ddefnyddio'ch cyfrif cyfrwng cymdeithasol personol.

Dylech hefyd ystyried yn ofalus sut rydych chi'n cynrychioli'ch hun ar wefannau cyfryngau cymdeithasol a sut gall pobl eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc, aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, ffurfio barn ar sail eich presenoldeb chi ar-lein.

Gwybodaeth ychwanegol

Gellir defnyddio'r wybodaeth ganlynol er mwyn cynorthwyo i gydymffurfio â'r canllawiau ymarfer:

Plant a phobl ifanc

Comisiynydd Plant Cymru www.complantcymru.org.uk/cy/

Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer
Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc www.cymru.gov.uk/topics/childreneyoungpeople/publications/participationstandards/?skip=1&lang=cy

Cydraddoldeb

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol www.equalityhumanrights.com

Iechyd a diogelwch

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch www.hse.gov.uk

Safonau galwedigaethol cenedlaethol

Gofal Cymdeithasol Cymru gofalcymdeithasol.cymru

Rheoleiddio gwasanaethau

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru www.cssiw.org.uk/skip=1&lang=cy

Rheoleiddio'r gweithlu

Gofal Cymdeithasol Cymru gofalcymdeithasol.cymru

Hawliau

Mae Fy Nghynllunydd, a gyhoeddwyd gan
Gomisiynydd Plant Cymru yn gyfeirlyfr ar gyfer
yr hawliau ddylai fod ar gael i blant a phobl
ifanc sy'n derbyn gofal. www.dera.ioe.ac.uk/11706/2/239.pdf

Diogelu

Llywodraeth Cymru gofalcymdeithasol.cymru/hyb

Datblygu gwasanaethau

Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal
Cymdeithasol ac Iechyd www.wales.nhs.uk/sites3/w-1-home.cfm?orgid=952

Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth www.scie.org.uk

Y ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a
Llesiant (Cymru) 2014 gofalcymdeithasol.cymru/hyb

Voluntary sector

Wales Council for Voluntary Action www.wcva.org.uk

Y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg www.comisiynyddygyymraeg.org

Datblygu'r gweithlu

Gofal Cymdeithasol Cymru gofalcymdeithasol.cymru



Am fwy o wybodaeth ewch i
gofalcymdeithasol.cymru

South Gate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government